CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
CYFARFOD MISOL 26ain O FIS MAWRTH 2009 AM 7.00PM
NEUADD YR EGLWYS SAN PEDR LLANBEDR P.S.

YN BRESENNOL Ar gyfer y Cyfarfod Cyhoeddus:
Dai Jones, Stryd y Coleg;
Barry Davies, 27 Maesyderi;
Colin George, 11 Parc-y-Felin;
Jeff Evans, Llys-y-Coed, Cwmann;
Alam Meerlitt, 17 Penbryn;
Mike Goodwin, 16 Penbryn;
Emyr Jones, Araul, Cwmann;
Carol Davies, Maesyderi;
Sue Davies, 45 Maesyderi;
Elizabeth James, Gwêl-y-Creuddyn;
Maureen Williams, 46 Maesyderi.
Roedd oddeutu 5 aelod o'r cyheodd yn ychwanegol yn bresennol yn ystod y Cyfarfod Cyhoeddus.

Cyng Maer Derek Wilson (Cadeirydd);
Cyng. Selwyn Walters (Is-Gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Elsie Dafis;
Margaret Davies-Evans;
Greg Evans; Lynda Mason-George;
Robert Phillips, Kistiah Ramaya;
Chris Thomas & Dorothy Williams.
Cyng. Tref & Sirol Robert (Hag) Harris.
Cyng. Sirol Ivor Williams
County Cllr Ivor Williams
Mr Carl Stringer (Gohebydd y Wasg – yn gweithio ar ei liwt ei hun)
Mr Wil Gant (Gohebydd y Wasg – Cambrian News)
Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) Ryan Jones
Sarsiant Martin Walters

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Maer Derek Wilsom bawb i'r Cyfarfod.
Cyn dechrau'r Cyfarfod llawn cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ble ymgynghorwyd â thrigolion Maesyderi, Gwêl y Creuddyn, Bryn-yr-Eglwys a Phenbryn ynglŷn â defnydd dyfodol Cae Maesyderi fel amwynder ar gyfer trigolion y dref. Boed i'r cae ffurfio rhan o dir yr hen Ysgol Gynradd Ffynnonbedr cyn ei hadleoli i'w champws newydd. Mae'r cae wedi bod ar gael at ddefnydd y cyhoedd ers 17 o flynyddoedd. Mae'r Cyngor Tref ar hyn o bryd ynghlwm â threfniadau â'r Cyngor Sir ar gyfer llogi'r cae dros gyfnod o 3 blynedd am bris enwol. Mynegwyd awydd mawr gan aelodau'r cyhoedd i gadw'r cae yn le agored, at ddefnydd yn bennaf, y 100 neu fwy o blant sy'n trigo ym Maesyderi. Ysgogwyd y CT i wella cyflwr y cae ac i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel. Byddai hyn yn golygu gwella cyflwr yr arwyneb, sydd ar hyn o bryd yn anwastad ac yn frith o fynyddoedd gwaddod a baw cŵn. Mae angen hefyd atgyweirio'r ffens. Gofynnodd Elizabeth James tybed a fyddai'n bosibl i ail-leoli'r pyg pêl droed. Gobeithir creu 2 byg newydd ar y cae. Roedd awgrymiadau

eraill yn cynnwys parc-sglefrio, trâc-rhedeg a maes-chwarae. Gresynwyd y ffaith y gallai'r cae gael ei ddefnyddio at ddibenion adeiladu ar ôl i'r 3 blynedd ddirwyn i ben gan y Cyngor Sir. Os bydd y cae'n cael ei gynnal a'i gadw a bod defnydd helaeth yn cael ei wneud ohono, yna byddai'r CT mewn sefyllfa gref i barhau â'r trefniadau i gynnig amwynder ar gyfer y dref.
Ar ôl clywed am ddifrifwch y sefyllfa cŵn yn baeddu, dadleuodd Cynghorwyr y dylid gwahardd cŵn yn gyfangwbl rhag defnyddio'r cae, mewn unrhyw fodd.
Adroddodd y SCCH Ryan Jones y trafodwyd y mater cylchol o gŵn yn baeddu mewn cyfarfod diweddar PACT a bod y broblem yn derbyn sylw pellach gan yr heddlu.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

Ymddiheurodd y Cynghorydd Andrew Carter a'r Cynghorydd John Davies am fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.
Roedd aelodau'n flin i glywed am farwolaeth tad y Cyng. Greg Evans, yn ddiweddar.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

3.1 **Datgelodd y Cynghorwyr Barton, Phillips a Harris** ddiddordeb personol pan drafodwyd y cais am gymorth ariannol oddi wrth *Gymdeithas Y Pwll Nofio* Gadawodd y Cyng.Phillips a Harris yr ystafell pan drafodwyd y mater.

3.2 **Datgelodd y Gyng. Williams** ddiddordeb personol pan darfodwyd y cais am dorri gwair a thrin y llwybrau troed yn ystod misoedd yr haf a gadawodd yr ystafell. Hefyd pan drafodwyd y gost i adnewyddu yswiriant y Gymdeithas *Ieuanc mewn Ysbryd.*

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

4.1 *Ardal Ddi-Alcohol* ar gyfer Llanber Pont Steffan
Derbyniwyd llythyr gan Elin Prysor, Adran y Gyfraith CSC yn mynegi bod y Cyngor Sir yn y broses o ystyried y Cais ar y Cyd rhwng Heddlu Dyfed-Powys a'r Cyngor Tref ar gyfer Ardal Ddi-Alcohol i Lambed. Boed i'r gost i'r Cyngor Sir o ran hysbysebu ac arwyddion ar gyfer Ardal Ddi-Alcohol Aberystwyth ym 2005 fod oddeutu £5,000. Mae'r Cyngor Sir yn paratoi ymgynghoriad cyhoeddus, ac yn unol â chanllawiau statudol. Golyga hyn gosod hysbyseb yn y Wasg yn datgan bwriad y Cyngor Sir i gyflwyno'r Gorchymyn. Amcanbris ar gyfer yr hysbyseb yw £850.00. Ar ôl hynny caiff y mater ystyriaeth gan GSC. Os caniateir y Gorchymyn, bydd angen ail-hysbysebu'r ffaith ar ffurf Rybudd Cyhoeddus. Yn union pan fydd y Gorchymyn yn barod i'w rhoi mewn lle, caiff arwyddion eu gosod i fyny. Gofynnwyd petai'n bosibl i'r CT i gyfrannu'n ariannol at y gost. Cytunwyd ar 50% o'r gwariant i fyny at uchafswm o £2,500 mewn ymgais i symud y mater ymlaen. Dywedodd y Sarsiant fod y CT, "yn gwneud y penderfyniad cywir heb os ac onibai".

4.2 **Bechgyn yn Rasio ceir**: Roedd y broblem yn ymwneud â bechgyn yn rasio ceir o fewn y dref yn derbyn sylw pellach.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR: 26/02/2009

Cytunwyd eu bod yn gywir.

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 Penderfynwyd yn y cyfarfod olaf i geisio etholiad i lenwi'r sedd wag. Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Sir Ceredigion, "Yn ôl ein dealltwriaeth ni o'r *Rheol*, nid oes modd ailarddangos y *Rhybudd* (Arddangoswyd Hysbyseb yn caniatau 10 etholwr o ardal etholedig Ward Llambed i ofyn am Etholiad ym mis Awst 2008 ond ni dderbyniwyd ymateb gan y Cyhoedd), a rhaid cyfethol".

Dywedodd Mr Paul Clayden MA Cyfreithiwr, "o ran y Gyfraith os oes lle gwag, mae'n orfodol i'r Cyngor i'w llenwi cyn gynted â phan fo'n *ymarferol …..* drwy cyfethol aelod newydd gan nad oedd Is-Etholiad wedi ei galw i lenwi'r sedd wag." Derbyniwyd 2 gais i lenwi'r sedd wag. Cariwyd i beidio â newid y *Polisi-i-Beidio-a-Chydethol* y Cyngor Tref (7 i gadw'r Polisi, 4 i newid y Polisi ac un atal bleidlais).

Mae'r CT wedi mynnu lawer dro, fod y broses o gyfethol aelod newydd yn anddemocrataidd a dylai aelodau newydd sefyll etholiad. Gallai'r rhai a ddymunai ymuno â'r CT wedi sefyll Etholiad ym mis Mai ac Awst 2008.

6.2 **Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref:** Y Maer i wella cyflwr y fframwaith cyn gynted â phosibl. Mae rhai posteri sydd wedi eu harddangos ar ran y CT wedi eu tynnu i ffwrdd gan aelodau'r cyhoedd.

6.3 **Cymuned ar y Cyd:** Meithrin cyd-berthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref; canllawiau terfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru- y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

6.4 **Cynllun Diogelwch a Chymunedol Ceredigion 2008-11: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion**: - y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

6.5 **Bin Ail-gylchu:** gwrthodwyd y cais i leoli bin ar Sgwâr Harford er i'r CT dderbyn cytundeb ar lafar yn caniatau hyn ynghynt. Cyfarfu'r Cyng. Phillips â chynrychiolydd y Cyngor Sir yn gynharach yn y dydd ac ystyriwyd lleoliadau addas eraill megis Parc-yr-Orsedd a chanol ffordd rhwng Siop Spar a Gwilym Price.

6.6 **Trefi Taclus**: Boed i Mr Glanville Evans, Cyng. Barton, Walters, Davies-Evans a'r Clerc fynychu cyfarfod ar y 19^{eg} o Fawrth o dan arweiniad Rachel Mills Cydlynydd Balchder Bro CSC Cynllun "Trefi Taclus" sef bartneriaeth tair blynedd o hyd rhwng CSC a Chadw Cymru'n Daclus a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Materion a drafodwyd:

6.6.1 **Bin Ail-gylchu ar gyfer y dref: roedd** angen gwybodaeth pellach ar y Cydlynydd Balchedr Bro er bod cais manwl wedi ei gyflwyno eisoes i'r Cyngor Sir. Mynegodd Y Cyng. Walters y dylai'r bin fod yn ddu mewn lliw ac yn cynnwys y penawdau "Plastig/Caniau".

6.6.2 **Cael gwared â'r graffiti di-olwg** o ardaloedd penodedig o fewn y dref. Nid oes hawl gan y Cyngor Sir i waredu â graffiti heblaw ei fod wedi ei leoli ar eu heiddo. Cyfrifoldeb y Rheilffordd yw gwaredu â'r graffiti ar hen bont y Rheilffordd ar gyrion y dref er bod rhan helaeth y llinell rheifffordd wedi ei ddiddymu erbyn hyn.

6.6.3 **Gwelliannau ar gyfer Neuadd y Sgowtiaid:** Adroddodd Mr Glanville Evans bod angen gwella tu cefn i fynedfa y Neuadd a bod angen adnewyddu'r Gegin. Ar hyn o bryd gwirfoddolwyr sy'n ymgymryd â'r gwaith. ee peintio ac addurno. Rachel Mills i ddarganfod petai'r cais yn cwrdd â gofynion y Cynulliad Cenedlaethol am grant.

6.6.4 **Cae Maesyderi:** bydd trafodaethau pellach yn cymryd lle ar ôl i'r brydles ddod i rym. Un o amodau'r grant yw bod y gymuned yn cymryd cyfrifoldeb am y cae. Gallai cymhorthdal fod ar gael ar gyfer trwsio'r ffens (bydd angen cyflwyno 3 amcanbris). Trafodaethau pellach i gynnwys y ddarpariaeth o offer chwarae, meinciau, byrddau picnic ac o bosibl i greu gardd/rhandiroedd cymunedol.

6.6.5 **Parc-yr-O rsedd:** archebwyd 5 o feinciau newydd ar gyfer y parc.

6.7 **Seddau ar gyfer y Swyddfa'r Post**, Llanbedr PS: yn disgwyl ateb oddi wrth y Co-op.

6.8 **Newid Enw Lle – King George V Green i Parc St. Germain-sur-Moine**,: mae'r mater yn derbyn sylw 3 adran y Cyngor Sir ar hyn o bryd. Mynegodd

Kay Hughes, Swyddog Rheoli Cyfeiriadau CSC y byddai'n angenrheidiol i Ymgynghori ac ystyried dogfennau cyfreithiol cyn y gellid bwrw ymlaen ag ail-enwi'r Parc. Ni allai rhagweld unrhyw broblemau a allai wahardd newid yr enw presennol.

6.9 **Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn Ceredigion 2008:** Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yr Heddlu: cytunodd y Dirprwy-Faer Selwyn Walters i glustnodi sylw pellach i'r ddogfen.

6.10 **Llythyr gan Mr Jamie McCormack Turner 2 Glyndwr, Teras-yr-Orsaf,** Llanbedr PS, yn gofyn am y ddarpariaeth o arwydd stryd ar gyfer 5 Tŷ Teras Glyndwr. Awgrymodd 1-5 Glyndwr. Adroddodd Kay Hughes CSC fod y mater yn derbyn sylw.

6.11 **Cyngor ar Bopeth:** parthed cais y CT am gyflwyniad. Yn disgwyl ateb oddi wrthynt.

6.12 **Cynllun Grantiau Bach Gweithgaredd Lles i hybu lechyd a Lles yng Ngheredigion CSC:** adroddwyd na fu'r CT yn llwyddiannus yn eu cais am gymhorthdal.

6.13 **Cais am Flychau Graeanu (Halen**) ar gyfer Ystâd Penbryn a Maes Parcio'r Rookery: yn disgwyl clywed oddi wrth GSC am ganlyniad y cais.

6.14 **Gofynnwyd i GSC** petai'n bosibl i'r Heol Un-Ffordd Mountwalk gael ei throsi i ganiatau cerddwyr yn unig am resymau diogelwch. Adroddwyd bod cyfarfod safle wedi ei drefnu ar gyfer Ddydd Gwener 3ydd o Ebrill rhwng cynrychiolaeth y CT a Rachel Thomas CSC.

6.15 **Tlws Cydnabyddiaeth Gwirfoddoli Ceredigion 2009:** penderfynwyd enwebu Mrs Janet Evans, Haulfryn, Llanbedr PS ar gyfer y Wobr Gwirfoddoli (dros 25)**.**

6.16 **Cŵn yn Baeddu:** archebwyd 100 o daflenni dan law'r Cyngor Sir. Mae'r taflenn'n cael eu hail-argraffu ar hyn o bryd.

6.17 **Seremoni Urddo'r Maer 2009:** byddai manylion pellach yn cael eu dosbarthu cyn bo hir.

7. GOHEBIAETH

7.1 **Llwyddiant Ceredigion i ddod yn Sir Masnach Deg:** Mae Ceredigion yn Sir Masnach Deg ers mis Medi 2008. Mae Masnach Deg yn cyfrannu at ffordd o fyw cynaliadwy i fwy na 5 miliwn o gynhyrchwyr a gwiethwyr mewn gwledydd tlawd o amgylch y byd.

7.2 **Ceisiadau am ollyngiadau CSC:** yn pwysleisio fod yr hawl gan yr is-Bwyllgor Safonau i ganiatau gollyngiadau i siarad *a* phleidleisio mewn perthynas â cheisiadau am gymorth ariannol gan fudiadau eraill y mae Cynghorwyr yn aelodau ohonynt, ar yr amod fod yr is-bwyllgor yn fodlon bod sail am ganiatâd gollyngiad. Nodir y seiliau perthnasol ar y ffurflen gais am ollyngiad.

7.3 **Confensiwn Cymru Gyfan**: 4/03/2009 Aberystwyth: er gwybodaeth.

7.4 **Cais gan aelod o'r Cyhoedd Llanbedr PS** yn gofyn am lythyr o gefnogaeth ar gyfer caniatau ei ffrind o'i gartref yn Nhwrci i ymweld â Llambed. Boed i'r Maer a'r Dirprwy-Faer gytuno i gyflwyno llythyr o gefnogaeth cyn y Cyfarfod.

7.5 **Gohebiaeth eraill**: er gwybodaeth yn unig.

8. MENTER LLAMBED

Adroddodd y Cyng. G.Evans y newyddion diweddaraf yn ymwneud â Menter Llambed.
Y mae *Transition Llambed* yn mynd i holi barn trigolion lleol parthed eu defnydd o ynni a gwybodaeth am faterion gwyrdd.

Cynhelir ddigwyddiad yn yr hwyr yn Neuadd Fictoria ar yr 28ain o Ebrill.

9. CYNLLUNIO

9.1 Boed i'r cais canlynol ei caniatau gan GSC

Hysbyswyd y CT gan GSC	Rhif y Cais:	Ymgeisydd	Lleoliad	Caniatâd ar gyfer:
25/02/2009	**A080943LB**	**Prifysgol Cymru Llanbedr PS:**	**Caban y Porthor, Llanbedr PS**	**Y mae CSC fel yr Awdurdod Lleol wedi caniatau newidiadau yn ymwneud ac oddi fewn, Caban y Porthor Prifysgol Cymru Llanbedr PS.**

9.2 Cofnodion Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Swyddfa'r Cyngor Sir, Penmorfa Aberaeron, 11/02/2009 ac Agenda y cyfarfod o'r 11/03/2009: er gwybodaeth**.**

9.3 Cyngor Sir Ceredigion: Ymgynghori Cyn Adneuo ar Ddogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol: Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori ynghylch Dogfennau Cyn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r rhan hon o'r ymgynghori'n cynnwys y dogfennau canlynol: (1,2&3) 1) Y Strategaeth a Ffefrir gan gynnwys: Y materion allweddol sy'n effeithio ar Geredigion; Y Weledigaeth a'r Amcanion, Y brif strategaeth ar gyfer cyfnod y Cynllun, Y polisiau strategol allweddol, Methodoleg asesu'r safleoedd arfaethedig posibl. 2) Adroddiad Dechreuol Arfarnu Cynaladwyedd; & 3) Adroddiad Sgrinio'r Asesiad y Rheoliadau Cynefinoedd.
Bydd dogfennau Cyn Adneuo'r CGLl yn amlinellu lefel y twf sydd dan ystyriaeth, lleoliad y twf, pa ardaloedd i'w diogelu ac ati. Byddai Is-Bwyllgor yn cyfarfod i lunio ymateb erbyn y 28ain Ebrill.

9.4 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990: Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredin) 1995 Erthygl 13 Hysbysu Cynghorau Cymuned: Yn unol â'r ddeddfwriaeth uchod mae Cynghorau Cymuned yn cael 14 o ddiwrnodau i ymateb ar ôl cael eu hysbysu ynglŷn â chais. Penderfynwyd dirprwyo pwerau swyddogaethol i'r Maer, Dirprwy-Faer a'r Clerc i ymateb i geisiadau cyffredin a gyfyd rhwng cyfarfodydd. Am geisiadau allan o'r cyffredin byddai'r Pwyllgor llawn yn eu trafod.

9.5 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gwrthod yr Apêl o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Apêl Adran 78- 56 Heol y Bont, Llanbedr PS: Cais i Ddymchwel adeilad presennol a codi adeilad newydd i gynnwys 2 fflat a stiwdio artist. Dyddiad yr Apêl 10/03/2009. Canlyniad: Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gwrthod yr Apêl. Y rhesymau: mae'r safle o fewn yr Ardal Gadwraeth, Llanbedr PS, yr effaith ar amodau byw trigolion cyfagos a diogelwch a gorlenwad traffig.

10. CYLLID

10.1 Ceisiadau Ariannol:

10.1.1 Pwll Nofio Llanbedr Pont Steffan: £1,000 – penderfynwyd diolch i Gymdeithas Y Pwll Nofio am eu hymgais i sicrhau parhâd yn y gwasanaeth gwerthfawr.

10.1.2 MenCap Cymru £50.00: adroddwyd bod 1 mewn 7 o blant ac oedolion Llanbedr PS yn dioddef o ryw fath o anabledd.

10.1.3 Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW). Mae YDCW yn addo gwario arian drwy ymgyrchu i warchod ein hased fwyaf – tirlun unigryw Cymru.

10.2 Llythyr o ddioch oddi wrth Macmillan Cymorth Canser am y rhodd o £100; Gŵyl Dewi Drwg am y rhodd o £250 a Mudiad Ffermwyr Ifanc Ceredigion am y rhodd o £50.00

10.3 Cyflog y Clerc (Mawrth) £497.00

10.4 Golau/Gwres/Storio: £20.00

10.5 Treth Incwm a Chyfraniadau YC: £91.36

10.6 Adroddodd y Gyng. D.Williams yn y cyfarfod blaenorol o'r angen am yswiriant ychwanegol ar gyfer cynghorwyr 75+. Adroddwyd bod Yswiriant Cyngor Y Dref yn ateb i'r gofynion hyn.

10.7 Incwm: Grant Goleuadau Nadolig Cyngor Sir Ceredigion: Nid yw'r Cyngor Sir bellach yn cynnig cymorth ariannol tuag at y gost Goleuadau Nadolig yn nhrefi Ceredigion, ac fe ddaw hyn i rym yn Nadolig 2009.

10.8 Penderfynwyd adnewyddu aelodaeth gydag Un Llais Cymru - £273.

10.9 Llogi Swyddfa Menter Llambed: Cyfarfod Trefi Taclus 19/03/2009 £15.00

10.10 Anfoneb BT a Band Eang: 3 mis tan 11/03/2009 £99.55

10.11 Llogi Neuadd Yr Eglwys (Cyfarfod Misol) @£7.50 yr awr 26/03/2009 £26.25

10.12 Dawns Flynyddol Ysgol Gynradd Ffynnonbedr- Hirio DJ £50.00 Creision/Diodydd/Cwpanau Plastig £55 d/l y Gyng. D.Williams. Diolchwyd i'r aelodau a fynychwyd y digwyddiad megis Y Maer; Y Faeres, Cyng. D.Willimas, Davies-Evans a Carter.

10.13 Eryl Jones – penderfnywyd talu y Premiwm Yswiriant Flynyddol *Ieuanc mewn Ysbryd.*

10.14 Cais Papur Ysgrifennu ac Ati -Clerc: £43.12

10.15 0.1% yw cyfradd llog cyfrif y CT, Lloyds TSB a derbynnir llog flynyddol o £60.00 ar y cyfanswm o £60,000. Adroddwyd bod cyfrif ar gael yn y Banc Barclays yn cynnig 1.5% ac fel canlyniad yn cynnig llog o £900 ar y cyfanswm o £60,000. Graddfa llog y cyfrif Alliance & Leicester, yn ogystal yw 0.1%. Penderfynwyd clustnodi sylw pellach i'r mater ac i drafod y darganfyddiadau'n ystod y Cyfarfod nesaf.

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 LLWYBRAU CERDDED (gan gynnwys Parc-yr-Orsedd)

11.1.1 Grant Cynllun Llwybrau Cymunedol CSC 2009-10: llythyr dan law'r CSC yn mynegi bod £487.50 wedi ei glustnodi i'r Cyngor Tref ar gyfer cynnal a chadw'r llwybrau cerdded dros fisoedd yr haf.
Gofynnwyd am ddyfynbrisiau ar gyfer torri gwair ym Mharc-yr-Orsedd dros fisoedd yr haf ac i gynnal a chadw'r llwybrau cerdded.
Cynllun Gwella Tramwy CSC a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2008 **(**gwnaed cais am gymhorthdal ar gyfer y llwybr yn arwain o iard yr hen orsaf at Longwood; gwneud gwellianau i'r llwybr Forest Walk/Heol y Wîg a gwella cyflwr y llwybr Gwêl y Creuddyn i Aberaeron Cyfeirnod 61/16): yn ôl y Cyngor Sir nid yw'r llwybrau dan sylw wedi eu cofrestru fel Llwybrau Cerdded Swyddogol. i drafod y mater ymhellach yn ystod y Cyfarfod nesaf.

11.1.2Parc-yr-Orsedd: mar trefniadau ar y gweill ar gyfer y *Lansiad Swyddogol* y Parc i gynnwys yr offer Cadw'n Heini fel yr ariennir gan

Gyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer Ddydd Mawrth 28ain Ebrill am 2.00pm.

11.1.3 Mynedfa Newydd ar gyfer Parc-yr-orsedd: Adroddwyd bod mr Glanville Evans wedi dechrau ar y gwaith.

11.1.4 Mae angen clustnodi sylw pellach i'r gwelliannau a grybwyllwyd gan y Cyng. C.Thomas ar gyfer Parc-yr-Orsedd. A wnewch chi gyfeirio at y Cofnodion Mis Chwefror am fanylion y gwelliannau arfaethedig).

12.2 CTCC

12.2.1 Adroddiad Misol ar gyfer Mis Ionawr CSC: bu yna 3 cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol a 2 gais i edrych ar gopiau o ddisgau yn ymwneud â chadw rheolaeth ar y cyhoedd ac ymosodiad. Anodd oedd rheoli'r holl 6 gamera rhwng 22/02/2009 a'r 26/02/2009- cafodd y broblem ei datrys o fewn 3 dydd.

12.3 GOLEUADAU STRYD

12.3.1 Mae'r golau stryd ger yr Orsaf Ambiwlans a Llys Idwal wedi ei hatgyweirio.

12.3.2 Mae'r polyn golau stryd ger y Castle Green wedi ei osod ynghanol y palmant – gallai ei amgyffred yn berygl i ddefnyddwyr cadair olwyn a chadair wthio.

12.4 PALMANTAU

12.4.1 Penderfynwyd diolch i'r Cyngor Sir am y gwellainnau sydd wedi eu hymgymryd ar balmantau Heol Y Bont yn ddiweddar, sy'n ased enfawr i'r dref. Mynegwyd bryder gan rai aelodau am ddyfnder y cwrbyn a'i fod yn is i'r hyn y dymunasant – i adrodd at sylw'r CSC

12.5 YR IAITH GYMRAEG

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn diolch i'r Cyngor Tref am gyflwyno adolygiad blynyddol y Cyngor ar weithrediad y cynllun iaith. Yn yr adolygiad blynyddol dywedir, "Er bod y Cyngor wedi ystyried y Gymraeg wrth rhoi grantiau nid yw hyn wedi digwydd mewn modd swyddogol. Argymhellir fod y Cyngor yn gofyn am ddatganiad ysgrifenedig fel mae'r Cyngor yn gofyn am fantolen."

Addroddodd y Cyng. Phillips y gofynnwyd am gyngor ynglŷn â sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg gan fudiadau sy'n gwneud cais am gymorth ariannol, heb gamwahaniaethu yn erbyn mudiadau di-Gymraeg.
Dywed Cynllun Iaith y Cyngor yn Adran 5.4.1
Yn y manylion a roddir i'r rhai sy'n bwriadu ymgeisio am gyfraniad ariannol tuag at weithgareddau lleol, bydd y Cyngor yn gwneud yn glir fod angen i ymgeiswyr ddisgrifio sut y maent yn bwriadu adlewyrchu natur ieithyddol y gymuned a'u cynulleidfa yn y gweithgaredd(au) y maent yn gofyn am gefnogaeth ariannol tuag ato(ynt). Wrth bwyso a mesur ceisiadau, bydd y Cyngor yn sicrhau fod ymgeiswyr wedi adlewyrchu natur ieithyddol y gymuned a'u cynulleidfa yn briodol yn eu cais.
Yn gyntaf dylai'r Cyngor weithredu'r cymal hwn trwy gynllunio ffurflen i fudiadau sy'n gwneud cais am grant. Dylai'r ffurflen nodi'n glir fod disgwyl i'r gwiethgaredd adlewyrchu natur ieithyddol yr ardal, gan roi enghreifftiau o sut y dylid gwneud hyn. Felly, os oes cais am gefnogaeth ariannol tuag at gynnal cyngerdd dyweder, yna fe ddylai'r sawl sy'n cyflwyno'r cais egluro sut y bydd y

cyngerdd yn adlewyrchu nature ieithyddol yr ardal ee posteri, taflenni a rhaglenni dwyieithog, eglurhad o sawl perfformiad fydd yn y Gymraeg ayyb.

Pe cyflwynir cais gan fudiadau di-Gymraeg, cwmni theatr dyweder, ni fyddai disgwyl iddynt berfformio yn Gymraeg yn ogystal, ond efallai y byddai disgwyl i'r deunydd marchnata fod yn ddwyieithog. Wrth weithredu fel hyn, ni fyddai'r Cyngor yn camwahaniaethu gan y disglwylir i bawb adlewyrchu natur ieithyddol yr ardal.

Teg yw dweud na fydd goblygiadau ieithyddol gyda phob grant, ond dylai'r Cyngor benderfynu beth sy'n addas ym mhob achos. Penderfynwyd y byddai'r Cyng. Phillips yn cydweithio â'r Clerc ar gyfer llunio ffurflen addas.

13. U.F.A.

13.1 Carnifal Llanbedr PS 2009: Gofynnodd y Gyng. Mason-George am y trefniadau sydd ar y gweill ynglŷn â'r Carnifal. Adroddodd y Cyng. Walters am amcanion Bwyllgor Cymunedol i ymgymryd â'r trefniadau. Ef yw Cadeirydd y Pwyllgor. Gwahoddir holl gynghorwyr Cyngor Y Dref i'r Cyfarfod nesaf

13.2 Mynegodd y Gyng. Davies-Evans bryder parthed y Cyfleusterau Cyhoeddus Stryd San Thomas sydd heb fod ar gael at ddefnydd y cyhoedd ar hyn o bryd. Adroddwyd bod contractwyr CSC yn ymdrin â'r mater.

Daeth y Cyfarfod i ben am 10.15pm.

14. Dyddiadau y cyfarfod nesaf:

Nos lau 30ain o Ebrill am 7.30pm – yn yr Hen Goleg, Coleg y Brifysgol, Llanbedr PS.
Nos Wener 1 af o Fai Seremoni Urddo'r Maer yn yr Hen Goleg, Coleg y Brifysgol, Llanbedr PS.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)

Gwaherddid y Wasg pan drafodwyd:

15. Llogi'r Cae Bryn: ar ôl trafodaeth hir penderfynwyd cyflwyno cynnig ar gyfer llogi Cae'r Bryn.

16. Derbyniwyd 3 amcanbris ar gyfer torri porfa Ardal Chwarae Parc-yr-orsedd a chynnal Llwybrau Troed Llambed a'r Cylch ym 2009. Penderfynwyd derbyn cynnig Mr E. Williams ar gyfer cynnal a chadw'r llwybrau (£90 yn feunyddiol) a £85 y toriad ym Mharc-yr-Orsedd (6 toriad)